

# Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014–15

Gwasanaethau Cymdeithasol  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont  
ar Ogwr

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif feysydd lle bu cynnydd  
a'r meysydd lle mae angen gwella yng Ngwasanaethau  
Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr  
ar gyfer y flwyddyn 2014–15

# **Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad 2014-2015**

## **Awdurdod Lleol: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

**Mae'r adroddiad hwn yn nodi gwerthusiad AGGCC o berfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wrth gyflenwi ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.**

### **1. Crynodeb**

- 1.1. Mae'r cyngor yn parhau'n realistig ynghylch yr heriau a gyflwynir gan yr angen i gyflenwi a gwella gwasanaethau o fewn cyd-destun lleihau adnoddau ariannol. Mae hyn wedi cyflymu'r gyriant tuag at well effeithlonrwydd, gan wella gwaith partneriaeth strategol, mwy o wasanaethau wedi'u hintegreiddio, a chynnydd yn yr ymrwymiad tuag at gomisiynu rhanbarthol, sy'n rhedeg ochr yn ochr â'r paratodau ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014.
- 1.2. Ym mis Hydref 2014, gwnaeth y cyngor benodi pennaeth newydd gofal cymdeithasol i oedolion, ac mae hyn wedi cynyddu capasiti arweinyddol y cyngor wrth fynd i'r afael â'r heriau sy'n ei wynebu. Ym mis Ionawr 2015, gwnaeth y cyfarwyddwr corfforaethol lles ymgymryd â'r cyfrifoldeb o fod yn rheolwr llinell ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol plant, gan gymryd y teitl newydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles. Mae gwasanaethau plant yn parhau i reoli eu perfformiad mewn ffordd effeithiol ac effeithlon.
- 1.3. O fewn gofal cymdeithasol i oedolion, mae rhaglen ailfodelu a thrawsnewid y cyngor yn parhau i fod yn sylfaen ganolog o ran cryfhau'r agenda atal a lles ledled Pen-y-bont ar Ogwr – ac yn rhanbarthol trwy Gydweithrediad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Bae'r Gorllewin (Bae'r Gorllewin). Mae'r hinsawdd bresennol o lymder a newid demograffeg yn parhau i gyfrannu at yr her o gyflenwi cefnogaeth a gwasanaethau o ansawdd. Er gwaetha'r heriau hyn, mae gofal cymdeithasol i oedolion yn parhau yn ymrwymedig i foderneiddio er mwyn gwneud gofal cymdeithasol yn gynaliadwy ac yn gymesur yn y dyfodol.
- 1.4. Mae'r rhaglen trawsnewid wedi cael ei strwythuro o amgylch y blaenoriaethau strategol sydd yn y cynllun gwella corfforaethol,

sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer y newidiadau sydd eu hangen er mwyn i'r cyngor fod yn gydnaws â disgwyliadau'r Ddeddf newydd. Mae hyn wedi'i amlinellu'n glir yn adroddiad blynyddol y cyfarwyddwr.

- 1.5. Mae rhaglen ranbarthol Bae'r Gorllewin yn parhau i ddatblygu. Y prif amcan yw gweithio ar draws yr ystod eang o wasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol yn siroedd Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe, ac ar draws ffiniau sefydliadol, i symud y broses o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol ymlaen. Mae Bae'r Gorllewin wedi sefydlu fforwm partneriaeth, sy'n darparu trosolwg strategol. Ar hyn o bryd, mae'r arweinyddiaeth yn cynnwys tri arweinydd y tri awdurdod lleol, deilwyr portffolio perthnasol, cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ac aelodau anweithredol, a phrif weithredwyr y cynghorau a'r bwrdd iechyd.

## 2. Yr ymateb i'r meysydd i'w gwella a nodwyd y llynedd

| Y gwelliant a nodwyd y llynedd  | Cynnydd yn 2014-2015   |
|---|--|
| Parhau i wneud cynnydd â'r gwaith o ddatblygu modelau newydd ar gyfer gofal a chymorth mewn gwasanaethau i oedolion | Mae'r rhaglen ailfodelu yn parhau i fod yn rhan o'r fframwaith ar gyfer symud y broses o drawsnewid gwasanaethau i oedolion yn ei blaen. Roedd hyn yn cynnwys datblygu model cydlynnydd cymuned leol o dan yr agenda atal a lles, nifer o brosiectau anableddau dysgu, datblygu cynllun gwasanaeth ar gyfer ailfodelu gofal preswyl i bobl hŷn, ac ailfodelu gwasanaethau gofal cartref. Roedd hefyd yn cynnwys datblygu tendr ar gyfer byw â chymorth ac adolygu'r gwasanaeth prydau bwyd yn y cartref. |
| Gwneud cynnydd â'r gwaith o ddatblygu cynllun dementia lleol  | Ar hyn o bryd, mae hwn yn destun ymgynghori fel rhan o strategaeth leol ar y cyd a chynllun cyflenwi ar gyfer gwasanaethau dementia.   |
| Dod â gwasanaethau nyrsio ardal i mewn i'r ganolfan rheoli atgyfeiriadau integredig                                 | Cafodd hyn ei ohirio yn ystod 2014-2015 yn sgil nifer o ffactorau, ac mae cynllun ar waith er mwyn i'w gwblhau yn ystod 2015-2016.   |
| Datblygu fframwaith sicrhau   | Datblygwyd fframwaith ansawdd  |

|  |  |
|--|--|
| <p>ansawdd ledled Bae'r Gorllewin er mwyn sicrhau bod y gwaith o gomisiynu gwasanaethau iechyd meddwl yn gyson ac yn effeithiol</p> <p>Cynyddu ymwybyddiaeth ledled y sector ynghylch gofynion y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid</p>                               | <p>rhanbarthol ledled Bae'r Gorllewin i'w gymeradwyo yn ystod 2015-2016. Rhoddwyd system froceriaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ar waith o dan y bwrdd contractio a chaffael.</p> <p>Mae'r cyngor wedi gweithio gyda darparwyr i godi ymwybyddiaeth ynghylch eu cyfrifoldebau mewn perthynas â'r trefniadau diogelu rhag colli rhyddid.</p> |
| <p>Parhau i fonitro lefelau absenoldeb o fewn gwasanaethau i oedolion</p>  | <p>Mae ffocws parhaus ar fonitro a rheoli absenoldeb yn sgil salwch. Mae gweithredoedd wedi cynnwys targedu hyfforddiant mewn meysydd allweddol, sicrhau ansawdd mewn cyfarfodydd adolygu absenoldeb, a chyfarfodydd misol sy'n canolbwyntio ar salwch.</p>  |
| <p>System o archwilio ffeiliau achos yn effeithiol ledled gwasanaethau i oedolion a gwasanaethau i blant Monitro'r effaith ar uwch-ymarferwyr o ymgymryd â llwyth achosion cymhleth, yn sgil diffyg profiad cymharol gweithwyr cymdeithasol sydd newydd eu recriwtio</p> | <p>Mae'r ffocws wedi bod ar y dulliau newydd o weithio sydd wedi eu llywio gan yr archwiliad o arfer. Gwaith gwerthuso a dargedir o ffeiliau achos a system adolygu gan gymheiriaid ar waith ar gyfer ffeiliau iechyd meddwl</p>   |
| <p>Parhau i ddatblygu cefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol gref er mwyn gyrru'r broses o foderneiddio yn ei blaen ac ymateb yn effeithiol i ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a ddaeth yn gyfraith yn ddiweddar</p>                     | <p>Seilwaith cadarn ar waith ar gyfer cefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol er mwyn gyrru'r broses o foderneiddio yn ei blaen ac ymateb yn effeithiol i ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a ddaeth yn gyfraith yn ddiweddar</p>  |

### 3. Ymweliadau ac arolygiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn

- 3.1. Mae ymweliadau safle yn rhoi cyfle i AGGCC drafod â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'u teuluoedd, ynghyd â'r staff sy'n rheoli ac yn gweithio yn y gwasanaethau. Yn ystod 2014-2015, cynhaliwyd ymweliadau â'r safleoedd canlynol:

## **Gwasanaethau plant**

- Tîm asesu
- Timau maethu a mabwysiadu
- Tîm lleoli
- Canolfan ddiogelu – Y Dderwen
- Cartref Preswyl Sunnybank

## **Gwasanaethau oedolion**

- Canolfan gofalwyr – caffi cymunedol
- Cynllun gofal ychwanegol Llys Ton
- Canolfan ddydd Pen-y-bont ar Ogwr
- Prosiectau anabledd dysgu

3.2. Gwnaeth AGGCC gyfarfod ag uwch-swyddogion y cyngor hefyd drwy gydol y flwyddyn er mwyn adolygu perfformiad gwasanaethau cymdeithasol a thrafod cynnydd yn y meysydd i'w gwella a nodwyd yng ngwerthusiad perfformiad y llynedd. Roedd y cyngor yn barod iawn eu cymwynas wrth ymgysylltu ag AGGCC, a gwnaethant gynorthwyo AGGCC i gael mynediad at safleoedd er mwyn cynnal ymweliadau.

3.3. Gwnaeth AGGCC gynnal gwaith dilynol ar argymhellion yr arolygiad cenedlaethol, sy'n edrych ar ddiogelu a chynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac sy'n gadael gofal ac sy'n arddangos ymddygiad agored i niwed neu ymddygiad peryglus. Gwnaeth yr arolygiad ddarganfod nifer o elfennau cadarnhaol yn ogystal â thynnu sylw at rai meysydd i'w gwella. Mae cynnydd ar y meysydd i'w gwella yn cael ei fonitro drwy broses gwerthuso perfformiad blynyddol AGGCC, gwaith dilynol penodol, a thrwy ymgysylltu â'r cyngor. Mae'r cyngor wedi ymateb yn dda, gan greu cynllun gweithredu manwl sydd wedi bod ar y gweill drwy gydol y flwyddyn, ac mae cynnydd da wedi'i wneud.

## **4. Meysydd y bydd AGGCC yn gwneud gwaith dilynol arnynt y flwyddyn nesaf**

- 4.1. Nodwyd nifer o feysydd i'w gwella ym mhrif ran yr adroddiad hwn. Bydd cynnydd y cyngor mewn perthynas â'r rhain yn cael ei

drafod â'r cyngor yn ystod cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd yn y flwyddyn sydd i ddod. Bydd meysydd penodol ar gyfer gwaith dilynol yn cynnwys:

- Gweithredu'r newidiadau gwasanaeth yn barod ar gyfer y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru)
- Y cynnydd a wnaed tuag at weithredu'r model gofal ychwanegol

## **5. Cynllun arolygu ac adolygu AGGCC ar gyfer 2015-2016**

5.1. Mae AGGCC hefyd yn ymgymryd â'r arolygiadau thematig cenedlaethol canlynol, ac mae'n bosibl y bydd gwasanaethau ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cael eu dewis ar gyfer gwaith maes:

- Adolygiad cenedlaethol o ofal cartref
- Adolygiad cenedlaethol o wasanaethau i bobl ag anableddau dysgu
- Adolygiad cenedlaethol o gynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

## **6. I ba raddau mae'r profiadau a'r canlyniadau ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth yn gwella eu lles?**

### Oedolion

#### **Trosolwg**

- 6.1. Gwneir cynnydd parhaus wrth weithredu rhaglen ailfodelu'r cyngor, sy'n rhedeg ochr yn ochr â'r paratodau ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a ddaeth yn gyfraith yn ddiweddar. Mae penodiad pennaeth newydd gofal cymdeithasol i oedolion ym mis Hydref 2014 wedi darparu arweinyddiaeth ychwanegol a'r gallu i yrru'r agenda trawsnewid yn ei blaen.
- 6.2. Mae'r cyngor mewn lle da i weithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ac mae wedi cysoni ei gyfeiriad strategol gyda chyfeiriad strategol Bae'r Gorllewin. Bu cryn dipyn o ffocws ar y gwaith paratoi sy'n ofynnol er mwyn gweithredu'r Ddeddf, gan gynnwys datblygu gwybodaeth o safon uchel a gwasanaeth sy'n rhoi cyngor i'r cyhoedd drwy greu "siop un stop". Mae hon yn rheoli ymholiadau cyffredinol ac yn galluogi'r cyngor i ymateb i bobl sydd angen asesiad ac ymyrraeth yn unol â disgwyliad y ddeddfwriaeth newydd.
- 6.3. Mae'r cyngor yn gweithio'n effeithiol â'i bartneriaid i ddiogelu a gwarchod pobl sy'n agored i niwed ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Ers

symud i'r byrddau diogelu rhanbarthol, mae'r cyngor wedi sicrhau atebolrwydd a llywodraethu lleol drwy greu grŵp diogelu amlasiantaeth sy'n weithredol ac yn lleol, ac mae penaethiaid gwasanaeth yn sicrhau bod materion diogelu yn eitemau safonol ar yr agenda yn ystod cyfarfodydd rheoli is-adrannol. Mae'r cyngor wedi datblygu polisi diogelu corfforaethol, ac mae yng nghanol y broses o ganfod nifer o eiriolwyr diogelu ledled y cyngor drwy'r grŵp penaethiaid gwasanaeth.

- 6.4. Mae'r tîm diogelu yn darparu cyngor, cymorth ac arweiniad ar amrywiaeth o ymholiadau diogelu, gan gynnwys penderfyniadau ynglŷn â throthwyon pan geir rhybuddion diogelu, ac asesiadau risg wrth reoli achosion cymhleth. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r cyngor yn adrodd newid o ran tueddiadau rhybuddion diogelu ac atgyfeiriadau diogelu, sy'n adlewyrchu ymateb mwy cymesur sy'n seiliedig ar risg. Mae sefyllfaoedd llai difrifol yn cael eu rheoli'n fwy priodol drwy ddiogelu, rheoli gofal, neu drwy drefniadau gydag asiantaethau darparu. Mae'r pryderon sy'n fwy difrifol yn parhau i gael eu trin gan y fframwaith amlasiantaeth ffurfiol sydd wedi'i nodi yng nghanllawiau Cymru gyfan.
- 6.5. Mae tri swyddog monitro contractau yn rhan o'r tîm diogelu; mae hyn yn eu galluogi i ymgymryd â gwaith mwy ataliol gyda'r sector darparu. Mae cymorth a threfniadau monitro effeithiol yn helpu darparwyr i wella eu perfformiad ac i gyflawni gwell canlyniadau i'w defnyddwyr gwasanaeth. Yn ystod eleni, mae'r cyngor wedi gweithio'n dda mewn partneriaeth gydag AGGCC wrth fynd i'r afael â pherfformiad gwael darparwyr, yn benodol drwy roi proses o uwchgyfeirio pryderon ar waith, a wnaeth helpu i ddiogelu unigolion agored i niwed mewn un achos. Mae'n werth nodi'r berthynas waith da rhwng y cyngor, y bwrdd iechyd, a'r rheoleiddiwr.
- 6.6. Mae'r cyngor yn galluogi pobl sydd ag anableddau dysgu i fyw bywydau sy'n fwy bodlon ac yn annibynnol, ac mae'n parhau i ymgorffori'r argymhellion a wnaed yn adolygiad Alder. Gwnaed cynnydd drwy gydol y flwyddyn wrth ddatblygu mentrau cymdeithasol, a gwnaed mwy o waith ar brosiectau cymunedol. Gwnaed cynnydd hefyd wrth weithio gyda'r tîm cefnogi pobl i gefnogi defnyddwyr gyda modelau tenantiaeth newydd a chwblhau rhaglen adsefydlu effeithiol a chynhwysfawr i ddefnyddwyr. Mae hyn wedi galluogi pobl i symud allan o ddau gartref gofal mawr a chael cyfleoedd byw â chymorth. Mae datblygu trefniadau byw â chymorth mewn partneriaeth â'r sector annibynnol ar gynnydd, ac mae darparwyr tai lleol a chymorth yn datblygu cynlluniau ar gyfer dau gynllun, sydd wedi'u llunio i alluogi pobl i lwyddo cael mwy o annibyniaeth. Mae nifer o ymweliadau â safleoedd wedi cael eu cynnal lle mae AGGCC



wedi arsylwi ar berthnasau gwaith da gydag asiantaethau partner.

- 6.7. Mae'r cyngor yn chwilio am ddulliau o weithredu ei weledigaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn ystod y tair blynedd nesaf. Ar hyn o bryd, mae'r cyngor yn cynnal ymgynghoriad ar y Cynllun Cyflenwi a Chomisiynu Gwasanaethau Iechyd Meddwl ar gyfer pobl sydd angen gwasanaethau iechyd meddwl. Bydd ganddo bump o flaenoriaethau, gan gynnwys gwell darpariaeth gwasanaeth a gwell mynediad at wybodaeth well. Mae'r cyngor yn ystyried dementia yn flaenoriaeth, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn natblygiad ei gynllun lleol. Er bod rhywfaint o waith ar gynnydd, y farn yw ei fod yn dameidiog a bod angen mwy o waith bellach.
- 6.8. Mae gan y cyngor system effeithiol ar waith ar gyfer mynd i'r afael â cheisiadau o dan y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid, gan sicrhau bod risgiau yn cael eu rheoli, bod amserlenni yn cael eu glynu atynt, a bod cydymffurfiaeth o ran deddfwriaeth yn cael ei monitro. Cyflwynodd gronfa ddata newydd ar gyfer y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid yn rhan o'i gynllun gweithredu yn dilyn adolygiad ym mis Ebrill 2014 gan AGGCC ac AGIC o'r trefniadau diogelu rhag colli rhyddid ledled Cymru. Cafodd y cynllun gweithredu ei ddatblygu gan y rheolwr diogelu i wella canlyniadau i bobl a'r maes gwasanaeth wrth iddo fynd yn ei flaen. Gweithiodd gydag asiantaethau partner, gan gynnwys y gwasanaeth eirioli annibynnol o ran galluedd meddyliol ac asiantaethau darparwyr. Yn sgil y cynnydd sylweddol yng ngheisiadau o dan y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid, o ddeuddeg yn 2013-2014 i 325 yn 2014-2015, mae hyn wedi profi'n ased amhrisiadwy wrth ddarparu gwybodaeth amserol i uwch-reolwyr. Mae nifer y ceisiadau dan y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid, a'r rhai a gafodd eu hawdurdodi, yn cael eu monitro bob mis, ac mae adroddiad yn cael ei baratoi bob chwarter er mwyn i fwrdd diogelu oedolion Bae'r Gorllewin graffu arno.
- 6.9. Mae ymgysylltiad â gofalwyr, a'r cymorth sy'n cael ei ddarparu iddynt, wedi gwella wrth i swyddog datblygu gofalwyr gael ei benodi tua diwedd 2013, ac mae hyn wedi bod yn hanfodol o ran cynnwys gofalwyr fel partneriaid cyfartal mewn gofal. Mae ystod eang o weithgareddau ymgysylltu gyda gofalwyr wedi bod yn ganolog i'r gwaith o ddatblygu strategaeth wybodaeth ac ymgynghori i ofalwyr. O ganlyniad, mae eu cyfraniad wedi darparu arweiniad clir i'r gwasanaethau a'r trefniadau cymorth a ddatblygwyd yn ystod 2014-2015.
- 6.10. Bu cynnydd sylweddol wrth weithredu'r rhaglen ailfodelu ym meysydd gofal cartref, gofal preswyl, ac anabledau dysgu.

Mewn perthynas â gofal cartref, nodwyd yn flaenorol bod y cyngor yn bwriadu anfon tendr gwerth 4,400 o oriau o gymorth mewnol at y sector annibynnol. Fodd bynnag, nid oedd y tendr yn llwyddiannus, ac nid oedd yn bosibl dyfarnu'r contract. Ymgwymerwyd ag ymarfer "gwersi a ddysgwyd" yn adran caffael y cyngor er mwyn canfod y rhesymau y tu ôl i fethiant y farchnad i ymateb.

- 6.11. Mae perfformiad y cyngor wrth adolygu anghenion oedolion sy'n derbyn gwasanaeth wedi gostwng rhywfaint eleni, a hynny o 83% yn 2013-2014 i 79% yn 2014-2015. Gallai hyn fod oherwydd effaith y cynnydd yn y gyfradd derbyn atgyfeiriadau, o 17% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae perfformiad mewn oedi wrth drosglwyddo gofal yn parhau i fod yn gyson, ac mae hyn yn arwydd o berfformiad da ac yn dystiolaeth glir o waith partneriaeth effeithiol y cyngor yn y maes hwn.

### **Blaenoriaethau cenedlaethol allweddol (oedolion)**

#### **Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar**

- 6.12. Mae agenda trawsnewid y cyngor wedi cael ei llywio yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan y bwrdd ailfodelu gofal cymdeithasol i oedolion, sydd wedi goruchwyllo'r gwaith cynllunio ar gyfer cyflenwi modelau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau hyd at y cam gweithredu. Mae hyn yn cynnwys ailddatblygu gofal preswyl i bobl hŷn i greu model gwasanaeth gofal ychwanegol, ailfodelu'r ddarpariaeth gofal cartref, a thrawsnewid gwasanaethau anabledau dysgu traddodiadol. Yn ogystal â hyn, mae gwaith atal wedi dechrau, a gwaith yn ymwneud â chyfrifoldebau lles, wrth baratoi ar gyfer gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae dau ymarfer ymgynghori ar waith, y naill ym maes iechyd meddwl a'r llall ar gyfer gwasanaethau dementia. Gwelwyd dystiolaeth o ddatblygiad sylweddol mewn gwasanaethau sydd wedi eu hintegreiddio â gwasanaethau iechyd, gan gynnwys creu tîm adnoddau cymunedol cadarn a datblygiadau allweddol mewn gwasanaethau i ofalwyr.
- 6.13. Mae'r ganolfan rheoli atgyfeiriadau integredig yn parhau i ddatblygu. Mae wedi cydgrynhoi'r trefniadau cyswllt cyntaf ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion a'r tîm adnoddau cymunedol, ac mae system o weithwyr proffesiynol ar ddyletswydd wedi'i sefydlu. Mae'r cyngor yn cydnabod bod gwaith pellach yn angenrheidiol i sicrhau bod hyn yn datblygu i fod yn wir fynediad pwynt sengl ar gyfer holl wasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd cymunedol integredig. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth wedi lleihau gwaith dyblygu yn y system rheoli atgyfeiriadau, gan

sicrhau bod ceisiadau pobl am gyngor, cyfeiriad ac asesiadau yn derbyn ymateb mwy effeithiol.

- 6.14. Mae'r cyngor yn parhau i alluogi pobl i fyw yn fwy annibynnol yn y gymuned, sydd yn dystiolaeth o effeithlonrwydd ei strategaeth ymyrraeth gynnar ac atal, er gwaethaf cynnydd yn y galw am wasanaethau yn ystod 2014-2015. Mae penodi uwch-nyrs yn 2014 wedi galluogi'r llwybr atgyfeirio i nyrsys mewngymorth i hwyluso trosglwyddiadau o ofal eilradd i'r gwasanaeth nyrsio ardal, sy'n rhan o rwydweithiau integredig yn y gymuned. Gwnaeth y gwasanaeth dderbyn 7,058 o atgyfeiriadau, cynnydd o 1,021 (17%) ar y flwyddyn flaenorol. Roedd nifer y bobl a oedd yn derbyn cefnogaeth yn y gymuned yn cynyddu gan 6% ar y flwyddyn flaenorol. O'r rhain, roedd 32% ohonynt rhwng 18 a 64 oed, ac roedd 68% ohonynt yn hŷn na 65 oed. Nifer y bobl a oedd yn derbyn gwasanaeth ail-alluogi oedd 411, tra gwnaeth 2,299 o bobl dderbyn pecyn Telecare a chafodd 761 o bobl gymorth hirdymor mewn cartref gofal preswyl.
- 6.15. Mae'r cyngor yn priodoli ei lwyddiant yn rhannol i fentrau newydd a gwaith cadarnhaol a gynhaliwyd gan y tîm adnoddau cymunedol, sydd wedi gwella gwasanaethau arbenigol megis therapi lleferydd ac iaith, rheoli meddyginiaeth, a chymorth deietegol. Mae'r tîm adnoddau cymunedol wedi galluogi mynediad gwell a chyflymach at y gwasanaethau hyn, wedi sefydlu'r tîm ymateb symudol, sy'n darparu gwasanaeth 24 awr saith diwrnod yr wythnos, ac wedi llwyddo i sefydlu cam cyntaf Better@home, gwasanaeth sy'n hwyluso'r broses o adael yr ysbyty yn gynt pan fydd rhywun yn aros am ddyddiad dechrau ar gyfer eu pecyn cymorth parhaus.
- 6.16. Mae datblygu gwasanaethau atal a lles wedi bod yn flaenoriaeth i gydweithrediad Bae'r Gorllewin, ac mae cyllid wedi'i glustnodi er mwyn symud gwaith cydgysylltu cymunedau lleol yn ei flaen ledled y rhanbarth. Bydd y dull hwn yn cefnogi pobl sy'n agored i niwed oherwydd anabledd, problemau iechyd meddwl, oedran, eiddilwch, neu arwahanrwydd cymdeithasol i ddilyn eu gweledigaeth eu hunain o'r hyn sy'n fywyd da iddynt. Mae'n tynnu ar gryfderau a gwytnwch unigolion ac yn canolbwyntio ar y canlyniadau sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol a pharhaus i fywydau pobl. Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithredu y tu allan i wasanaethau statudol, a bydd y ffocws cychwynnol ar ddatblygu prosiect peilot yng Nghwm Llynfi cyn y gellir ei ddatblygu mewn ardaloedd eraill yn y bwrdeistref. Mae ymgynghoriadau â'r sector gwirfoddol eisoes ar waith, er mwyn canolbwyntio ar y gwaith hwn a'i gysylltu ag adnoddau a rhwydweithiau sydd eisoes yn bodoli yn y gymuned.

6.17. Mae gwasanaeth teleofal y cyngor yn parhau i ddatblygu a darparu mwy o gefnogaeth i bobl gartref. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd 1,759 o bobl yn defnyddio'r gwasanaeth ymateb symudol teleofal. Mae'r gwasanaeth teleofal yn cael ei ddefnyddio yn ystod y dydd i roi cefnogaeth i bobl sy'n derbyn y gwasanaeth ymateb clinigol cynnar a arweinir gan nyrsys. Mae pob defnyddiwr gwasanaeth posibl wedi cael asesiad arbenigol gan therapydd galwedigaethol, Ac mae'r gwasanaeth yn cynnwys tîm ymateb symudol 24/7. Mae'r tîm yn weithwyr gofal cartref sydd wedi eu hyfforddi a'u cofrestru ac sydd ag offer arbenigol i symud pobl sydd wedi syrthio; gallant hefyd ymgymryd â gofal personol os oes angen.

### **Meysydd o gynnydd**

- Ailfodelu gofal cymdeithasol i oedolion i gynnwys datblygiad pellach o'r tîm adnoddau cymunedol a'r cynllun Better@Home
- Creu tîm trawsnewid i sicrhau bod amcanion allweddol yn cael eu cyflenwi

### **Meysydd i'w gwella**

- Dod â'r gwasanaethau nyrsio ardal i mewn i'r ganolfan rheoli atgyfeiriadau integredig
- Gwella mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth o ansawdd

### **Plant a phobl ifanc**

#### **Trosolwg**

6.18. Mae gan wasanaethau plant arweinyddiaeth a strwythur rheoli sefydledig sydd â chynllun clir ac sy'n canolbwyntio ar gyflenwi gwasanaethau ataliol i gefnogi plant a theuluoedd yn eu cymunedau. Dechreuodd y cyngor ailstrwythuro ei bum tîm diogelu er mwyn paratoi ar gyfer rhannu safle â'r gwasanaeth atal cynnar a chymorth dwys i deuluoedd yn un o'r tri chanolfan ddiogelu. Mae gallu ac adnoddau rheoli wedi cael eu cryfhau trwy gyflwyno swyddi newydd is-reolwyr tîm a chynyddu nifer yr uwch-ymarferwyr. Mae'r cyngor yn gobeithio y bydd hyn yn hwyluso mwy o gefnogaeth, goruchwyliaeth a gweithgarwch mentora ar gyfer gweithwyr cymdeithasol yn y rheng flaen. Mae hyn yn benodol o bwysig ar adeg pan fod gan y cyngor o hyd niferoedd cymharol uchel o weithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwysu, sy'n arwain at angen i uwch-ymarferwyr ymdopi â'r llwythi gwaith mwy cymhleth.

- 6.19. Cafodd yr holl achosion amddiffyn plant eu clustnodi i weithiwr cymdeithasol cymwysedig, ac mae newidiadau i'r gofrestr amddiffyn plant yn dangos gweithgarwch sylweddol o ran amddiffyn plant drwy gydol y flwyddyn. Mae perfformiad o ran cynnal cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol ymhen 15 diwrnod gwaith i drafodaeth y strategaeth wedi gwella o 88% yn ystod y flwyddyn flaenorol i 92% yn ystod 2014-2015, a chafodd 88% o grwpiau craidd cychwynnol eu cynnal ymhen deg diwrnod gwaith i'r gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol. Bu gwelliant pellach ers y flwyddyn flaenorol wrth gynnal adolygiadau o blant ar y gofrestr amddiffyn plant, gyda bron i 100% o adolygiadau o fewn yr amserlenni statudol.
- 6.20. Pan ymglymerir ag asesiadau cychwynnol, mae'r cyngor yn monitro canran yr asesiadau lle mae plant yn cael eu gweld ar eu pen eu hunain gan y gweithiwr cymdeithasol. Yn 2014-2015, roedd hyn yn uwch na 50%. Mae'r cyngor yn nodi mai'r prif resymau pam nad oedd plant yn cael eu gweld ar eu pennau eu hunain fel rhan o'r asesiad cychwynnol oedd am fod y plant naill ai'n rhy ifanc neu roeddent yn gwrthod cael cyfarfod â'r gweithiwr cymdeithasol ar eu pennau eu hunain. Oherwydd bod nifer sylweddol o'r asesiadau cychwynnol eleni yn ymwneud â phlant sy'n iau na dwy flwydd oed, mae'n ddealladwy pam fod y dangosydd perfformiad hwn wedi lleihau rhywfaint o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- 6.21. Gwnaeth canran yr atgyfeiriadau a oedd yn ail-atgyfeiriadau o fewn 12 mis gynyddu, a hynny o 13% yn ystod y flwyddyn flaenorol i ychydig mwy nag 20% yn 2014-2015. Ar hyn o bryd, mae'r cyngor yn dadansoddi rhesymau posibl dros y cynnydd hwn. Mae dadansoddiad cynnar yn awgrymu bod y cynnydd yn deillio o gau achosion plant mewn angen a oedd wedi bod ar agor ers cyfnodau hir, ac a oedd yn cael eu hail-atgyfeirio wedyn. Mae ail-atgyfeiriadau i wasanaethau gofal cymdeithasol plant wedi bod yn hanesyddol isel o gymharu â chynghorau eraill.
- 6.22. Yn ystod 2014-2015, roedd 63% o asesiadau craidd wedi cael eu cwblhau o fewn yr amserlenni gosod, ac mae'r cyngor yn cydnabod bod hyn yn ostyngiad mewn perfformiad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r cynnydd yn y pwysau a roddwyd ar dimau diogelu yn y rheng flaen o ganlyniad i gynnydd yn nifer y cysylltiadau a wneir â'r gwasanaeth wedi effeithio'n anochel ar allu gweithwyr cymdeithasol i gwblhau'r holl asesiadau craidd o fewn yr amserlenni statudol. Bydd y cyngor yn rhoi blaenoriaeth i'r maes hwn eleni, ac fe fydd yn faes a fydd yn cael ei fonitro ymhellach gan AGGCC yn y flwyddyn sydd i ddod.
- 6.23. Yn y cyngor, mae'r rheolwr grŵp ar gyfer anabledd, pontio, a rheoli achosion yn cadw'r arweinyddiaeth strategol ar gyfer datblygu

gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ag anableddau. Mae'r cyngor yn parhau i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau yn y maes hwn, gan gynnwys seibiant byr, darpariaeth canolfan ddydd, a chynllun chwarae i blant ag anghenion cymhleth.

- 6.24. Tra bod y cyngor yn gweithio i sicrhau ei fod yn gwrandao ar lais y plentyn wrth asesu ac adolygu darpariaeth y gwasanaeth, nid oes ganddo drefniadau penodol ar waith y tu allan i'r trefniadau hyn.
- 6.25. Mae'r broses o recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol cofrestredig profiadol yn parhau yn flaenoriaeth yn ystod 2014-2015, fel yr oedd yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae dulliau recriwtio wedi cael eu gwella, ynghyd ag ymgyrch hysbysebu barhaus i dargedu gweithwyr cymdeithasol profiadol. Nid yw hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn, gan fod mwyafrif y swyddi wedi cael eu llenwi gan staff sydd newydd gymhwyso.

### **Blaenoriaethau cenedlaethol allweddol**

#### **Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar**

- 6.26. Mae'r tîm asesu yn gweithio yn ystod oriau swyddfa arferol. Mae'n derbyn cysylltiadau ac atgyfeiriadau oddi wrth aelodau'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol ynghylch materion diogelu a lles plant. Roedd y nifer o atgyfeiriadau a dderbyniodd y cyngor yn cynyddu yn 2014-2015, o 1,302 yn ystod y flwyddyn flaenorol i 4,619. Mae'r cyngor o'r farn bod y cynnydd sylweddol yn nifer yr atgyfeiriadau a wnaed i'r gwasanaeth yn ganlyniad uniongyrchol i Heddlu De Cymru adael y rhaglen sgrinio ar y cyd holl atgyfeiriadau heddlu a wnaed i'r gwasanaeth. Yn y pen draw, mae hyn wedi gosod pwysau sylweddol ar y tîm asesu.
- 6.27. Mae'r cyngor wedi nodi bod buddsoddiad mewn mentrau ataliol ac ymyrraeth gynnar ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi cyflwyno her, o ystyried y cynlluniau cyllid grant gwahanol. Tra bod nifer o wasanaethau yn dal i fod yn gymharol newydd, cydnabyddir bod angen bellach i'w trefnu'n fwy effeithiol i wneud cysylltiadau mwy cadarn rhwng y dulliau o ymdrin â phlant ar wahanol haenau angen. Yn ystod y blynyddoedd diweddar, bu cryn fuddsoddiad ac ymrwymiad i waith atal ac ymyrraeth gynnar ym Mhen-y-bont ar Ogwr, yn enwedig o ran cysylltu teuluoedd, y gwasanaeth cymorth dwys i deuluoedd (sy'n cael ei gyflenwi ar ran awdurdodau eraill ym Mae'r Gorllewin hefyd), y tîm ymateb cyflym, a mentrau sydd wedi'u hariannu gan Deuluoedd yn Gyntaf. Dylai ailstrwythuro'r gwasanaeth ymyriadau teuluol alluogi gwaith gyda theuluoedd i fod yn fwy cydgysylltiedig, wrth i'r gwaith gael ei ymgymryd ar sail amlasiantaeth.


- 6.28. Mae'r prosiect Cysylltu Teuluoedd wedi parhau gyda digwyddiadau cyfranogi, sy'n gwahodd grŵp cyfranogi defnyddiwr gwasanaeth i rannu eu barn a chynnig syniadau ynghylch datblygiad pellach. Yn ystod 2014-2015, bu'r gwasanaeth yn gweithio gyda 60 o deuluoedd. O'r rhain, roedd gwasanaeth ar gyrion gofal Cysylltu Teuluoedd yn rhoi cefnogaeth i 24 o deuluoedd, a llwyddwyd i atal 46 o blant/pobl ifanc rhag bod yn blant sy'n derbyn gofal.

### **Plant sy'n derbyn gofal**

- 6.29. Mae gwasanaethau plant wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer yr atgyfeiriadau diogelu ac atgyfeiriadau cefnogi teuluoedd. Er gwaethaf hyn, mae'r cyngor yn nodi bod y nifer o blant sy'n derbyn gofal a'r nifer o blant sydd wedi cael eu rhoi ar y gofrestr amddiffyn plant wedi lleihau. Mae pwysau ar dimau rheng flaen o ganlyniad i nifer uchel o ddigwyddiadau trais domestig a gofnodwyd lle mae plant wedi bod yn bresennol, camddefnyddio sylweddau gan rieni, a'r esgeuluso plant sy'n gysylltiedig â hyn.
- 6.30. Mae'r cyngor wedi datblygu strategaeth barhaol, sy'n anelu at leihau'r nifer o blant sy'n derbyn gofal mewn ffordd ddiogel. Er gwaetha'r strategaeth hon, mae niferoedd yn parhau yn uchel, ac mae lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yn ddiogel yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r cyngor. Gwnaeth nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant leihau hefyd, o 179 y llynedd i 125 ar 31 Mawrth 2015, sef lleihad o 30%. Mae'r maes hwn yn parhau yn flaenoriaeth, ac mae'r cyngor yn cydnabod y bydd lleihad parhaus mewn plant sy'n derbyn gofal yn her yn y dyfodol.
- 6.31. Y llynedd, er y gwnaed gwelliant sylweddol o ran perfformiad ym maes ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal o fewn yr amserlen, cydnabuwyd bod angen gwneud gwelliannau pellach. Tra bod y cyngor yn cael ei sicrhau bod y mwyafrif helaeth o ymweliadau wedi'u cynnal yn rheolaidd a bod plant yn cael eu gweld, mae problem o hyd o ran cofnodi ymweliadau yn brydlon oherwydd pwysau cystadleuol yng ngwaith gweithwyr cymdeithasol. Yn ystod 2014-2015, bu gwelliant yn y perfformiad, a chynhaliwyd ychydig mwy na 76% o ymweliadau statudol yn unol â'r rheoliadau.
- 6.32. Mae tystiolaeth yn dangos efallai nad yw'r cyngor yn bodloni anghenion plant a phobl ifanc sydd ag amrywiaeth o anghenion cymhleth ac ymddygiadau sy'n heriol. Mae angen iddo ystyried bellach, o ran ei ddatblygiad strategol, p'un a yw ei ddarpariaeth breswyl gyfredol yn gallu ymateb i'r heriau sy'n gallu cael eu harddangos gan rai pobl ifanc. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae AGGCC wedi derbyn nifer o geisiadau i amrywio amodau cofrestriad ymhlith darpariaeth breswyl y cyngor, naill ai i gynyddu'r nifer o blant sy'n gallu derbyn llety neu i dderbyn pobl ifanc sydd y

tu allan i'r categori cofrestru. Roedd hyn o ganlyniad i'r angen i ymateb i sefyllfaoedd o argyfwng.

- 6.33. Cynhaliodd AGGCC arolygiad o wasanaeth maethu'r cyngor ar ddechrau 2015. Tra bod arferion da yn cael eu nodi, roedd yr angen i benodi rheolwr tîm yn hanfodol. Mae effaith diffyg rheolwr penodol ar waith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi ansefydlogi'r tîm ac wedi cael effaith ar ei berfformiad.



- 6.34. Mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal, gwnaeth gwasanaethau plant weithredu strategaeth lleoliadau a sefydlogrwydd newydd yn ystod y flwyddyn, a oedd yn anelu at leihau'r nifer o blant sy'n derbyn gofal yn ddiogel. Mae'r strategaeth hon, ynghyd â lansiad y strategaeth atal a chymorth cynnar newydd, wedi dylanwadu ar ostyngiad cyson yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn, o 412 ym mis Ebrill 2014 i 390 ym mis Mawrth 2015, sef lleihad o 5.3%.

#### **Meysydd o gynnydd**

- Lleihad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal
- Cyflwyno canolfannau diogelu

#### **Meysydd i'w gwella**

- Gwelliant o ran adolygu perfformiad a chanlyniadau
- Ail-lunio darpariaeth plant sy'n derbyn gofal ar gyfer y glasoed sydd ag anghenion cymhleth ac ymddygiad heriol



- Monitro'r gyfradd ail-atgyfeirio
- Monitro'r strategaeth i leihau'r nifer o blant sy'n derbyn gofal

## **7. Pa mor dda mae arweinyddiaeth, llywodraethiad a chyfeiriad y cyngor yn hyrwyddo gwelliant mewn canlyniadau a lles ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth**

- 7.1. Mae'r cyngor wedi profi newidiadau sylweddol o fewn yr uwch-dîm rheoli. Mae'r newidiadau hyn wedi creu mwy o gapasiti arweinyddol i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r cyngor, yn unol â disgwyliadau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Parhaodd y gwasanaethau ataliol a chymorth cynnar i fod yn gyfrifoldeb y cyfarwyddwr addysg, a oedd yn ymgymryd hefyd â'r cyfrifoldeb ar gyfer trawsnewid. Mae'r tîm trawsnewid yn gyfrifol am archwilio dulliau i gyflenwi gwasanaethau mewn modd hyblyg a chreadigol, datblygu proses gomisiynu effeithiol, a chynyddu gwaith gyda'r trydydd sector. Mae'r ddau gyfarwyddwr yn rhan o'r tîm corfforaethol a arweinir gan y prif weithredwr. Maen nhw'n sicrhau perthnasau gwaith da, ac mae'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol a lles yn atebol fel y cyfarwyddwr statudol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.
- 7.2. Mae'r cyngor wedi cydnabod y pwysau demograffig a galw sylweddol sy'n wynebu gwasanaethau plant ac oedolion, ac mae wedi clustnodi arian ychwanegol ar gyfer cyllidebau gwasanaethau cymdeithasol.
- 7.3. Er mwyn sicrhau cysondeb a safon wrth gyflenwi gwasanaeth i bobl sy'n derbyn gofal cymdeithasol, mae'r cyngor wedi datblygu fframwaith rheoli perfformiad. Cafodd ei gyflwyno'n ffurfiol ar ddechrau 2014; mae'n diffinio cylched rheoli perfformiad y cyngor ac yn nodi cyfrifoldeb ac atebolrwydd ar gyfer pob cam o'r broses hon. Dyma'r mecanwaith a ddefnyddir gan y cyfarwyddwyr i adrodd i mewn i'r broses asesu perfformiad corfforaethol. Mae'r cyngor yn cydnabod bod hyn wedi helpu i wella prosesau rheoli perfformiad mewnol, gan gysylltu cynllun corfforaethol y cyngor â chynllun busnes y gyfarwyddiaeth mewn modd amlwg, a'r rhaglen o ailfodelu a thrawsnewid ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion. Mae trefniadau trosolwg ac adrodd da ar waith, ynghyd â chyfarfodydd rheoli perfformiad misol, a gadeirir gan y cyfarwyddwr corfforaethol ac a fyny chir gan y penaethiaid gwasanaeth, rheolwyr grŵp, swyddogion rheoli perfformiad, a swyddogion cyllid ac adnoddau dynol.
- 7.4. Yn ei adolygiad o'r trefniadau diogelu corfforaethol yn y cyngor, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi:

- 7.5. "Mae gan y cyngor amrywiaeth o systemau ar waith i fonitro, adolygu a herio perfformiad, gan gynnwys adroddiad diogelu blynyddol, sy'n amlinellu gwybodaeth bellach sy'n ymwneud â gweithgarwch diogelu, amseroldeb, a chapasiti. Yn ogystal, gwelsom dystiolaeth o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Plant a Phobl Ifanc yn dylanwadu'n uniongyrchol ar bolisiau a strategaethau diogelu."
- 7.6. Yn ystod y 12 mis diwethaf, gwnaed gwaith pellach gan y tîm comisiynu, yr adran gyllid, ac asiantaethau partneriaid, sydd i gyd wedi gweithio'n agos â darparwyr gwasanaethau er mwyn sicrhau bod mecanweithiau tryloyw ar waith ar gyfer trafod costau a pherfformiad â darparwyr. Mae'r holl wasanaethau a reoleiddir yn cael eu monitro yn flynyddol yn erbyn y safonau gofal cartref a safonau ansawdd ffioedd nyrsio/preswyl. Mae hyn yn darparu dealltwriaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalmwyr o'r disgwyliadau sy'n cael eu gosod ar wasanaethau a gomisiynwyd i lynu wrth y safonau gofal gofynnol, gan yrru gwelliannau mewn canlyniadau ar gyfer unigolion.
- 7.7. Mae'r swyddogion monitro contractau yn ymgymryd ag ymweliadau dirybudd ac ymweliadau lle rhoddir rhybudd â darparwyr gofal cartref a chartrefi preswyl/nyrsio. Er mwyn cefnogi'r gwaith monitro hwn, mae rhaglen sefydledig, yn ôl trefn rota, o ymweliadau aelodau etholedig, a oedd yn cynnwys yn ystod 2014-2015 13 o sefydliadau i oedolion yn y sector annibynnol. Yn ystod 2014-2015, cytunwyd i dreialu ymweliadau â defnyddwyr gwasanaeth sy'n derbyn gofal cartref oddi wrth y cyngor yn ogystal ag oddi wrth ddarparwyr gofal annibynnol.
- 7.8. Ers mis Mai 2015, cryfhawyd y gefnogaeth wleidyddol ar gyfer gofal cymdeithasol gan ddau aelod cabinet ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, y naill ar gyfer gwasanaethau plant a'r llall ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion. Mae'r aelod cabinet penodol ar gyfer gwasanaethau plant, gan gynnwys addysg, yn cyflawni swydd cadeirydd pwyllgor rhianta corfforaethol y cyngor. Mae craffu a herio pellach ar amrywiaeth ac ansawdd ein gwasanaethau wedi'i ddarparu gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Plant a Phobl Ifanc a thrwy brosesau asesu perfformiad corfforaethol y cyngor.
- 7.9. Nid oes gan wasanaethau plant dîm comisiynu a chontractio penodol am fod gwasanaethau yn bennaf yn cael eu comisiynu gan feysydd gwasanaeth unigol yn hytrach na chynnig dull canolog. Fodd bynnag, mae'r cyngor yn cynnig model comisiynu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, ynghyd â phe cyn cymorth i gefnogi comisiynwyr a sicrhau arfer gorau. Mae swyddog cymorth ar gyfer prosiectau sydd wedi eu comisiynu yn rhoi cyngor i wasanaethau unigol ar arferion comisiynu a chaffael a pharatoi ar gyfer contractau, yn ogystal â

darparu swyddogaeth monitro contractau sy'n adolygu gwasanaethau darparwyr trydydd sector. Eleni, mae'r swyddog wedi'i ymgorffori o fewn tîm cyfatebol y gyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol a lles er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael a chreu cyfleoedd ar gyfer dull mwy cydgysylltiedig tuag at y gwaith o gomisiynu a chontractio.

### **Meysydd o gynnydd**

- Cefnogaeth gryfach ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol gan y cabinet